

Bwletin Awdurdod S4C - Mehefin 2001

CYFARFOD AGORED – RHYL

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Iau, 24 Mai 2001, yn y Ganolfan Haul yn y Rhyl lle bu oddeutu 35 o'r cyhoedd yn bresennol.

Yn ogystal â Chadeirydd yr Awdurdod, Elan Closs Stephens, bu'r Prif Weithredwr Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Roedd Aelodau eraill yr Awdurdod hefyd yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod. Ymhlith y materion a drafodwyd yn y cyfarfod oedd:

Gwyliau Cenedlaethol

Holwyd onid oedd hi'n bosibl i wylïo'r gwyliau, megis Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Amaethyddol, Eisteddfod Llangollen Eisteddfod Genedlaethol, ac ati, yn eu cyfanrwydd ar y gwasnaeth analog. Atebodd Huw Jones nad oedd yna unrhyw lai o oriau o'r gwyliau hyn ar S4C analog nag a fu yn y blynyddoedd cynt. Er hynny, roedd rhaid cydnabod fod gan S4C y broblem o geisio gwasgu rhaglenni Cymraeg gyda rhaglenni Channel 4 i mewn i un gwasanaeth. Yr unig beth allai S4C ei wneud oedd ceisio annog pobl i brynu'r offer fel y gallent dderbyn gwasanaeth S4C digidol oedd yn darlledu yn Gymraeg am 12 awr y dydd. Tra'n cydnabod bod £100 yn swm sylweddol i rai bobl fedru ei fforddio, pwysleisiwyd taw hwn oedd y cyfanswm roedd pobl yn gorfod ei dalu er mwyn derbyn y sianelau oedd yn rhad ac am ddim megis S4C digidol, nid oedd yn rhaid talu tanysgrifiad i Sky. Mater o dalu am yr offer oedd hwn, yn yr un modd ag y byddai rhywun yn prynu teledu, nid mater o dalu i dderbyn y gwasanaeth ydoedd. Ar ddiwedd y dydd felly, dewis yr unigolyn oedd hi os oeddynt am fuddsoddi yn yr offer i dderbyn digidol.

Cododd Elan Closs Stephen y pwynt bod y gost o brynu'r offer angenrheidiol tu hwnt i rai pobl a dywedodd bod hwn yn fater yr oedd y Llywodraeth yn ymwybodol ohono ac yr oedd yna drafodaeth yn mynd ymlaen ar hyn o bryd ar hybu digidol a sut y gellid sicrhau bod pobl yn gallu fforddio'r offer angenrheidiol.

Holwyd os oedd yn bosibl i bawb gael digidol gan fod pobl yn Penllyn wedi ceisio ei gael ac wedi methu ei dderbyn. Dywedodd Huw Jones y dylai pawb fod yn gallu derbyn digidol ac fe fyddai ganddo ddiddordeb mawr i ddysgu mwy am y sefylla hon. Gwahoddwyd i'r aelod o'r gynulleidfa adael enw a chyfeiriad ar ôl y cyfarfod er mwyn i S4C fedru dilyn y mater hwn i fyny.

Rhaglenni Crefyddol

Holwyd os oedd gan S4C unrhyw beth yn erbyn rhaglenni crefyddol gan mai prin iawn oeddynt i'w gweld ar y Sianel. Roedd yna lawer iawn o bobl yn dal i fynd i'r capel/eglwys ar ddydd Sul, felly dylai hi ddim fod yn anodd i ddod o hyn i gynulleidfa ar gyfer y fath raglenni. Atebodd Huw Eirug fod S4C yn darparu rhaglenni crefyddol. Roedd pawb yn gyfarwydd wrth gwrs â *Dechrau Canu Dechrau Canmol* a roedd y Sianel hefyd wedi darlledu *Cewri'r Ffydd*. Yn ogystal yr oedd y rhaglen *Hanfod* yn cael ei darlledu ar y sianel ddigidol. Fe fyddai yna gyfres arall yn cael ei darlledu yn hwyrach yn y flwyddyn, sef *Llwybrau Paul* ac yr oedd cynlluniau ar gyfer cyfresi eraill yn y cwpl o flynyddoedd i ddod.

Gofynnwyd os oedd S4C yn credu fod cyfresi fel *Fondue*, *Rhyw a Deinasors* yn addas i'w darlledu ar nosweithiau Sul. Atebodd Huw Eirug fod pobl yn cymryd barn a safbwyntiau gwahanol ar beth sydd yn addas i'w ddarlledu a phryd. Yr hyn yr oedd S4C yn ceisio ei wneud oedd i gynnig amrywiaeth o ddrama, gan gynnwys dramâu gyfoes, beiddgar. Mater o chwaeth yr unigolyn oedd hi ar ddiwedd y dydd. Ychwanegodd Huw Jones fod y dilyniant i'r gyfres dan sylw yn gryf ymysg y rheiny yn eu tridegau – cynulleidfa yr oedd S4C wedi ei chael hi'n anodd i ennill drosodd. Efallai nad oedd y gyfres hon at ddant pawb ond roedd cael llwyddiant o'r fath yma yn bwysig i'r Sianel ac i'w dyfodol. Roedd hyn yn dangos pa mor anodd oedd hi i apelio at bawb.

Rhaglenni Prynawn

Cododd aelod o'r gynulleidfa y pwynt nad oedd yna unrhyw raglenni Cymraeg yn cael eu cynnig yn ystod oriau'r prynawn rhwng *Planed Plant* a ddarledwyd canol dydd a *Planed Plant* amser te. Cydnabuwyd hyn ond eto awgrymwyd taw'r ateb oedd i drefnu i gael digidol gan fod S4C Digidol yn darlledu rhaglenni Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn a chyfeiriwyd at y rhaglen *Pnawn Da* fel enghraifft o'r arlwy a gynigiwyd yn y prynawn.

Dysgwyr Cymraeg

Gofynnodd aelod o'r cyhoedd onid oedd yn bosibl i ddarparu rhaglen lle gallai mam a'i phlant oedd yn dysgu'r Gymraeg eistedd i lawr i wyllo gyda'i gilydd. Cydnabuwyd bod *Talk About Welsh* yn cael ei darlledu ar gyfer pobl hyn ond nid oedd unrhyw beth yn cael ei gynnig ar gyfer plant bach. Atebodd Huw Eirug fod hwn yn bwynt ardderchog a bod S4C yn ymwybodol bod yna alw am raglen o'r fath ac yn wir yr oedd yn rhywbeth yr oedd y Sianel yn gweithio arni yn barod.

Ail-ddarllediadau

Gofynnodd aelod o'r cyhoedd pam oedd cymaint o ail-ddarllediadau yn cael eu darlledu. Atebodd Huw Jones fod yna ddau brif reswm. Y cyntaf oedd arian. Roedd yn fater o geisio rhannu cacen fel bod modd darlledu trwy'r amser. Roedd ail-ddarllediadau yn ffordd o wneud i'r gacen honno fynd ymhellach. Yr oedd yr ail reswm yn rheswm fwy positif. Mewn cyfnod pan oedd mwy a mwy o sianelau yn cael eu cynnig a phobl yn dewis gwyllo sianel arall fel dewis cyntaf, yr oeddynt yn gwerthfawrogi'r ail gyfle o wyllo rhaglen ar S4C. Yn gyffredinol ar y mater o ail-ddarllediadau, dywedodd Huw Jones nad oedd yn gweld y sefyllfa yn newid. Nid S4C, wrth gwrs, oedd yr unig sianel oedd yn darlledu ail-ddarllediadau.

Gan iddo gredu mai teg oedd trafod cyllid, ymhelaethodd Huw Jones ar y mater hwn. Dywedodd fod S4C yn gwario £70 miliwn y flwyddyn. Fel cymhariaeth, roedd Channel 5, er enghraifft, sianel y gellid dadlau oedd â'r rhaglenni rhataf, yn gwario £140 miliwn y flwyddyn ar raglenni yn unig. Roedd gan S4C felly hanner y cyllid i wneud yr un gwaith. Rhaid oedd i'r Sianel wario yn ofalus – nid esgus oedd hwn ond mater o roi cyd-destun.

Ymatebodd aelod o'r gynulleidfa trwy ddweud bod pawb yn deall sefyllfa S4C ac, yn siarad yn bersonol, roedd am longyfarch y Sianel, yn arbennig o ran dramâu. Roedd yna amrywiaeth da yn cael ei gynnig. Tra roedd yn iawn i farnu'r Sianel am bethau nad oedd yn plesio, dylid hefyd ei chanmol am y pethau da roedd yn darparu.

Rhaglenni ar Ddigidol

Holwyd pam na ellid ailddarlledu rhai o'r rhaglenni oedd yn cael eu dangos ar S4C Digidol ar S4C analog. Roedd rhai o'r rhaglenni yn dda iawn; *Croma* er enghraifft. Roedd Huw Eirug yn falch iawn bod *Croma* yn plesio, er hynny, roedd S4C yn cael ei chyfyngu gan y gofynion o orfod darlledu rhaglenni Channel 4 hefyd. Roedd *Croma* yn rhaglen awr ac felly byddai'n cymryd tipyn o amserlen S4C. Hefyd, wrth gwrs, os oedd S4C am i bobl wyluo S4C Digidol roedd angen iddi ddarparu rhaglenni yn amserlen y sianel honno fyddai'n denu pobl ati.

Pobol y Cwm

Dywedodd aelod o'r gynulleidfa ei fod yn cael oriau o bleser wrth wyluo S4C; roedd yn wirioneddol yn ei mwynhau, fel ag oedd y teulu. Er hynny roedd am godi mater am *Pobol y Cwm* a hynny yn ymwneud â hyd y straeon – roeddynt yn rhedeg yn rhy hir. Cytunodd aelod arall o'r gynulleidfa â hyn. Tra roedd ef a'i deulu yn mwynhau'r sebon opera, cytunodd yntau fod y straeon yn rhedeg yn rhy hir. Yn ei boeni'n fwy oedd effaith straeon hir yn delio â phynciau fel cyffuriau, er enghraifft, ar bobl ifanc a phlant. Os oedd *Pobol y Cwm* yn ymdrin â phwnc fel y gamdriniaeth o gyffuriau roedd angen i'r goblygiadau a'r gwersi gael eu gweld yn glir ac yn gyflym heb adael i'r stori redeg ymlaen yn rhy hir.

Cydnabuodd Huw Eirug y pwynt a dywedodd ei bod hi'n anodd i gynhyrchwyr opera sebon dyddiol benderfynu pryd dylid dod â stori i'w diwedd. Roedd hyn yn broblem roedd yn rhaid i'r BBC, oedd yn cynhyrchu'r rhaglen i S4C, ei ddatrys. Roedd *Pobol y Cwm* yn rhaglen werthfawr i S4C a roedd clywed barn ac ymateb gwylwyr iddi yn bwysig oherwydd roedd y gystadleuaeth o'r sianelau eraill yn dod yn ffyrnicach fyth – er enghraifft, roedd *Emmerdale* ar ITV nawr yn cael ei darlledu'n ddyddiol. Byddai Huw Eirug yn cyfarfod gyda'r BBC o fewn y mis nesaf a byddai yn cyflwyno sylwadau'r gynulleidfa iddynt bryd hynny.

Y Gwledydd Celtaidd

Cydnabyddodd aelod o'r cyhoedd bod darparu gwasanaeth teledu yn rhywbeth arswydus o ddrud a chredodd bod yr hyn yr oedd S4C yn ei ddarparu yn wyrthiol wrth ystyried y cyllid oedd ar gael iddi. Er hynny, holodd pam nad oedd yna fwy o raglenni yn ymwneud â'r Iwerddon a Llydaw yn cael eu gwneud. Atebodd Huw Jones fod hwn yn gwestiwn oedd yn codi yn aml dros y blynyddoedd. Y gwirionedd oedd bod S4C yn darparu rhaglenni o'r fath yma o bryd i'w gilydd a thipyn yn fwy i gymharu â'r sianelau Saesneg. Er hynny, tra'n dangos diddordeb ni ddylai'r Cymry dim ond ystyried eu hunain fel lleiafrif mewn byd lleiafrifol ond hefyd i feddwl amdanynt eu hunain fel un o bobloedd Ewrop. Roedd angen i'r Cymry edrych allan hefyd.

Ychwanegodd Elan Closs Stephens bod S4C er hynny yn chwarae rhan flaenllaw yn y byd darlledu Celtaidd. Er enghraifft, roedd Huw Jones wedi rhoi araith ar deledu iaith leiafrifol yn Llydaw; ac roedd Ymgynghorydd Datblygiadau S4C, Mr Euryn Ogwen Williams, hefyd wedi bod yn rhoi cyngor i'r sianel Geltaidd yn yr Alban. Mewn rhai ffyrdd felly yr oedd S4C yng gweithio'n agos gyda'r cyfundrefnau darlledu yn y gwledydd Celtaidd ac yn rhoi cymorth a chynngor iddynt.

Rhaglenni Comedi

Diolchwyd i S4C am ddod yn ôl â rhaglenni *Fo a Fe* nid oedd dim byd tebyg iddynt. Roedd ail-ddarllediadau *C'mon Midffield* hefyd yn rhywbeth i'w groesawu. Dywedodd Huw Eirug ei fod yn fodlon derbyn canmoliaeth am raglenni drama, ond roedd hefyd yn fodlon cymryd y bai am y rhaglenni comedi oedd yn methu, ac fe wnaeth gydnabod fod nifer o'r rhaglenni comedi yn y blynyddoedd diwethaf wedi methu. Er hynny, ni chredodd y dylid rhoi'r gorau i geisio dod o hyd y rhaglenni comedi newydd fyddai'n llwyddo. Roed yn gobeithio y byddai un neu ddwy o raglenni fyddai'n cael eu comisiynu ar gyfer y cwpl o flynyddoedd nesaf yn plesio.

Eisteddfod Genedlaethol

Cyfeiriwyd at y gwasanaeth o'r Eisteddfod a soniwyd bod y trafod rhwng y cystadleuthau yn amharu ar y mwynhad o'r wyl. Holwyd oni fyddai'n bosibl i ddefnyddio'r cyfnodau hyn i ddangos recordiad o'r gystadleuthau wedi'u cynnal yn gynharach yn y dydd. Roedd trafodaethau'r panelau yn diflasu. Cyfeiriodd Huw Eirug unwaith eto at sianel ddigidol S4C a dywedodd taw'r hyn roedd y gwylwr yn ei gael ar y sianel hon oedd tocyn i'r pafiliwn gyda chwmni un person, sef Alwyn Humphreys.

Cyfeiriodd aelod o'r gynulleidfa at y ffaith fod yr Eisteddfod Genedlaethol eleni wrth gwrs yn cael ei chynnal yn Sir Dinbych ac yr oedd pawb yn yr ardal yn edrych ymlaen.

Hysbysebion

Holwyd pam nad oedd fwy o hysbysebion Cymraeg yn cael eu gwneud. Atebodd Wyn Innes, Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol (a oedd ymhlith y gynulleidfa) fod S4C yn gwneud ei gorau i gael mwy o gwmnïau i hysbysebu yn y Gymraeg. Rhwy dwy flynedd yn ôl 9 cwmni oedd yn gwneud hyn, y nod eleni oedd i gael 35 o gwmnïau i hysbysebu yn y Gymraeg (ac efallai y byddai rhai o'r rhain yn gwneud dau neu dri gwahanol hysbyseb). Roedd S4C yn anelu at gael nid dim ond cwmnïau lleol i hysbysebu yn y Gymraeg ond cwmnïau rhyngwladol hefyd (er enghraifft, Ford). Roedd ymdrechion hefyd yn cael eu gwneud i ennill nawdd Cymraeg i raglenni. Dylid nodi bod S4C, trwy'r adran fasnachol yn rhoi sybsidi i gwmnïau i hysbysebu yn y Gymraeg.

Cyfres ar y Rheilffyrdd

Canmolwyd y cyflwynydd Arfon Haines Davies a chyfeiriwyd at y gyfres *Cledrau Coll*. Holwyd os oedd hi'n gywir y byddai cyfres debyg yn cael ei gynhyrchu. Atebodd Huw Eirug byddai yna gyfres arall yn ymwneud â'r rheilffyrdd yn cael ei gynhyrchu, sef *Cledrau Cul*.

CYFARFOD BUSNES - RHUTHUN

Aelodau'r Awdurdod

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith taw dyma'r cyfarfod olaf i Peter Davies a Janice Rowlands fynychu wrth i'w tymhorau ar yr Awdurdod ddod i ben. Mynegwyd gwerthfawrogiad o'u ffyddlondeb a'u teyrngarwch i amcanion S4C. Roedd eu dymuniad i weld S4C yn llwyddiant wedi bod yn amlwg iawn. Diolchwyd i'r ddau am eu cyfraniadau gwerthfawr iawn dros y pum mlynedd diwethaf.

Adroddwyd y byddai'r cyfweiliadau ar gyfer y ddau olynnydd i Peter Davies a Janice Rowlands yn cael eu cynnal ar 4 a 5 Mehefin 2001. Byddai'r argymhellion yna'n mynd at y Cynulliad am gytundeb, ac wedyn ymlaen at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon am sêl bendith derfynol.

Pennaeth Swyddfa'r Wasg

Dymunodd yr Awdurdod gydnabod yn ffurfiol diwrnod ymddeoliad David Meredith. Roedd cyfraniad David i S4C ac i'r cyfryngau yng Nghymru yn fwy cyffredinol wedi bod yn sylweddol. Roedd agweddau o'i waith wedi ei glymu'n agos at waith uniongyrchol yr Awdurdod, er enghraifft, gyda threfnu'r cyfarfodydd agored. Roedd boneddigeiddrwydd David Meredith tuag at bawb, pwy bynnag y bônt, yn nodweddiadol o'i amser gydag S4C.

Adolygiad o Berfformiad Aelodau wedi'u penodi i Gyrrff Cyhoeddus gan y Llywodraeth

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr oddi wrth Syr Robin Young parthed cynigion am drefniadau diwygiedig ar gyfer adolygu perfformiad cadeiryddion ac aelodau wedi'u penodi i gyrrff cyhoeddus gan y Llywodraeth. Roedd y llythyr yn deillio o adroddiad gan bwyllgor wedi'i arwain gan Dame Rennie Fritchie. Wedi trafod yr hyn oedd mewn golwg, croesawodd yr Aelodau y syniad y dylai cadeiryddion gwrdd yn anffurfiol gydag aelodau o fyrdau a noddwyd gan DCMS o leiaf unwaith y flwyddyn.

Is-deitlau Cymraeg

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y drafodaeth a gynhaliwyd eisoes gan yr Awdurdod ar y pwnc hwn a thrafodwyd canlyniadau ymchwil a wnaethpwyd. Roedd swyddogion S4C wedi dod i'r casgliad y gallai datblygu y gwasanaeth 889 presennol fod yn ddefnyddiol nid yn unig i bobl fyddar a thrwm eu clyw Cymraeg eu hiaith ond hefyd i siaradwyr Cymraeg o alluoedd ieithyddol gwahanol. Cymeradwywyd ymchwil pellach i weld pa mor ymarferol oedd cynnig o'r fath.

Adolygiad y Cynulliad ar yr Iaith Gymraeg

Nododd yr Aelodau yr amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig (Gorffennaf) a thystiolaeth ar lafar (Rhagfyr) i'r Cynulliad parthed ei adolygiad o'r iaith Gymraeg. Trafodwyd rhai materion penodol o ddi-ddordeb i S4C yn codi o'r ymgynghoriad. Byddai adroddiad pellach yn gosod penawdau fel sail i dystiolaeth ysgrifenedig S4C yn cael ei roi gerbron yr Aelodau yn y cyfarfod nesaf ar gyfer trafodaeth.

Amserlen

Tynnwyd sylw'r Aelodau at broblemau fyddai'r adran gynllunio yn ei wynebu yn y dyfodol agos o ran ail-amserlennu rhai o raglenni Channel 4 megis, *Big Brother*, y criced, a *Richard & Judy*. Er mai mater i'r adran gynllunio benderfynu arno oedd hwn, gwahoddwyd arweiniad Aelodau'r Awdurdod. Ym marn yr Aelodau ni fyddai darlledu *Big Brother* am 8.30 pm (h.y. yn ystod yr oriau brig Cymraeg) yn dderbyniol. Ni wnaethant gredu chwaith y dylid symud amser darlledu *Planed Plant* er mwyn darlledu *Richard & Judy* yn y slot hwnnw. Derbyniodd yr Awdurdod, er hynny, bod angen ymddwyn yn hyblyg o dan rai amgylchiadau ac fe wnaethant wahaniaethu rhwng yr hyn y gellid ystyried i fod yn 'ddigwyddiad', e.e. y criced, i gymharu â rhaglen gylchgrawn ddyddiol fel *Richard and Judy*.

BAFTA Cymru

Cyfeiriodd yr Aelodau at y sylw yn y wasg parthed BAFTA Cymru a holwyd beth oedd tu ôl i'r adroddiadau oedd wedi ymddangos. Esboniodd y Prif Weithredwr y sefyllfa parthed y seremoni wobrwyo yn gyffredinol ac ar y dyfarnu ar y wobwr 'y ffilm orau'. Nododd Aelodau Awdurdod y cefndir i'r hyn oedd wedi ymddangos yn y wasg.

Adroddiad Blynyddol 2000

Cytunodd Aelodau'r Awdurdod ar destun drafft yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2000. Byddai'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2000 yn cael ei gyhoeddi ar 28 Mehefin 2001.

Materion Eraill

Yn ogystal, nodwyd/trafodwyd y materiion canlynol/

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 11 Mai 2001
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.
- Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Cofnodion y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd 27 Ebrill 2001